OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1040

## Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008

### RHAN 4

Casglu, prosesu a storio semen

**Cynwysyddion ar gyfer storio neu symud semen**

**26.** Ni chaiff neb storio na symud semen ac eithrio mewn cynhwysydd a ddefnyddir at y diben hwnnw yn unig ac sydd—

(a) wedi'i ddiheintio neu wedi'i sterileiddio cyn cael ei ddefnyddio; neu

(b) yn gynhwysydd untro nas defnyddiwyd o'r blaen.